Hybu cymunedau diogel a chynaliadwy...

ADRODDIAD BLYNYDDOL

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

2012/13

Cartrefi Cymunedol Gwynedd
PO BOX 206
Bangor
Gwynedd
LL57 9DS

0300 123 8084
www.ccgwynedd.org
ymholiadau@ccgwynedd.org.uk

@CartrefiGwynedd
facebook.com/ccgwynedd

Gair gan y Cadeirydd

Dyma gyflwyno trydydd Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd i'ch sylw. Mae'n dangos ein bod yn gorff sy'n gwneud llawer iawn mwy na darparu tai ar rent fforddiadwy, ond mae'r cyfan er lles ein tenantiaid a thrigolion Gwynedd.

Bu'r gwaith sylweddol o wella'r stoc dai yn bwrw ymlaen gyda mwy a mwy o'r tai yn derbyn gwelliannau i'w dwyn fyny i Safon Ansawdd Tai Cymru. Braf yw gweld cymaint o bobl leol yn cael eu cyflogi oherwydd y gwelliannau, yn arbennig felly'r prentisiaid ifanc sydd wedi cael swydd am y tro cyntaf. Mae'r gwaith yn hwb sylweddol i'r economi yng Ngwynedd gyda gwariant o bron i £30 miliwn yn ystod y flwyddyn.

Er mor bwysig yw cael cartrefi modern a chlyd mae'r ardaloedd o'u hamgylch hefyd yn bwysig. Dyna pam rydym yn cyflogi Wardeniaid Cymunedol sy'n gyfarwydd â'r stadau tai ac yn dod i wybod am broblemau ac ymateb iddynt yn fuan. Dyna pam hefyd ein bod yn gwario'n helaeth ar waith amgylcheddol i wneud y stadau yn lefydd mwy deniadol. Mae'n flaenoriaeth gennym i hybu cymunedau diogel sy'n gynaliadwy.

Rydym ar ganol newidiadau mawr i daliadau budd-dal fel cyflwyno 'treth' ar lofftydd gwag ac ati, sy'n golygu llai o arian budd-dal i lawer o'n tenantiaid. Treuliodd y Bwrdd amser yn ystod y flwyddyn yn cynllunio ar gyfer y newidiadau. Penodwyd swyddogion newydd i gynorthwyo'r tenantiaid i ddygymod â'r newidiadau. Rydym yn sylweddoli mor anodd yw i rywun sydd ar incwm isel fyw ar lai fyth o arian.

Mae'n bwysig iawn i ni ein bod yn rhoi pob cyfle i'n tenantiaid roi eu barn ar ein gwasanaethau, a'n bod yn gwrando arnynt. Rwy'n hynod o ddiolchgar i'r rhai hynny sy'n rhoi eu hamser i fynychu cyfarfodydd fel bod llais y tenantiaid i'w glywed yn glir.

Yn naturiol cafwyd rhai anawsterau yn ystod y flwyddyn, ond gyda dygnwch, ymroddiad a phroffesiynoldeb y staff o dan arweiniad y Prif Weithredwr, Ffrancon Williams, fe lwyddwyd i'w goresgyn. Cryfder unrhyw gorff yw ei gweithwyr, ac rydym yn ffodus iawn yn y staff sy'n gweithio i Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Unwaith eto rwy'n ddiolchgar iawn i'm cyd-aelodau ar y Bwrdd am eu llafur diflino, a hynny'n ddi-dâl. Mae gan bob un arbenigedd i'w gyfrannu yn y cyfarfodydd ac mae boddhad i'w gael wrth feddwl ein bod yn cyfrannu ychydig tuag at wella amodau byw'r tenantiaid, a dyma yn y bôn yw'r rheswm tros fodolaeth Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

John Glyn Jones

Wardeniaid Cymunedol

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi a hybu cymunedau diogel a chynaliadwy. Mae ein tîm o Wardeniaid Cymunedol ar draws Gwynedd yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu'r gefnogaeth honno.

Mae gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) bum Warden Cymunedol llawn amser sy'n gweithio ar draws pob ardal yng Ngwynedd. Eu swydd yw sicrhau y gall ein tenantiaid fyw'n heddychlon yn eu cartrefi a bod yn falch o'r ardal ble maent yn byw.

Ein wardeniaid yw:

Iolo Roberts – Caernarfon
Gerad Laidlaw – Bangor
Arwel Williams – Meirionnydd
Gareth Jones – Gogledd Gwledig
John Glyn Jones – Dwyfor

Mae ein gwasanaeth Warden yn cynnwys:

- Presenoldeb amlwg ar ein stadau
- Darparu cefnogaeth a chymorth i breswylwyr
- Helpu tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau
- Ymateb i faterion rheoli stadau
- Rhedeg prosiectau lleol er lles y gymuned
- Cadw llygaid ar diroedd a mannau cyffredin
- Gweithio i atal ymddygiad gwrth-gymdeithasol a chefnogi dioddefwyr trosedd
- Annog tenantiaid o bob oed i gymryd rhan a chyfranogi

Diwrnod ym mywyd Iolo Roberts...

Mae Iolo wedi bod yn gweithio gyda CCG am 18 mis. Warden Caernarfon yw Iolo.

Mae hi'n 10am a dwi ar fin cychwyn fy shifft am y diwrnod. Heddiw, dwi'n gweithio shifft 10-6pm. Yn gyntaf dwi'n mynd i stad Maes Barcer yng Nghaernarfon i weld teulu sydd newydd symud mewn i un o'n cartrefi. Mae mynd i weld tenantiaid newydd yn aml yn rhan bwysig o'n gwaith ni rŵan. Fel hyn fedrwn ni wneud yn siŵr eu bod nhw yn setlo a'n bod ni yn eu cefnogi nhw fel tenantiaid newydd.

Mae gan CCG lawer o gynlluniau ble mae posib i denantiaid gymryd rhan, felly mae hi'n bwysig fy mod i yn rhoi gwybodaeth i denantiaid newydd a'u hannog nhw i gymryd rhan mewn cynlluniau ar gyfer preswylwyr. Mae'r teulu dwi'n mynd i weld heddiw yn falch o weld rhywun o CCG ac mae ganddynt ychydig o gwestiynau am yr ardal.

Rwy'n galw mewn i'r swyddfa yn Siambr Buddug i gael cyfarfod tîm cyn cychwyn ar fy nhaith eto. Dwi'n cynnal cymhorthfa neu syrjeri unwaith y mis; mae'n gyfle i denantiaid ddod i siarad efo fi am unrhyw beth sy'n eu poeni nhw. Mae sawl tenant yn galw mewn heddiw. Mae cwpwl mewn oed yn poeni am sbwriel sy'n cael ei adael wrth fynedfa eu cartrefi gwarchod ac mae mam ifanc yn galw mewn i riportio graffiti anweddus mae hi wedi ei weld ar y wal wrth ymyl y cae chwarae.

Ar ôl cinio dwi'n mynd i gyfarfod PCSO Owen Taylor a PC Eira Hughes. Rydw i yn gweithio yn reit glos efo'r ddau – yn ddiweddar rydym wedi bod yn cyd-weithio ar gynllun *Dreamscheme*. Yr Heddlu sy'n rhedeg y cynllun er mwyn cynyddu balchder cymunedol a lleihau ymddygiad gwrth-gymdeithasol trwy gynnal gweithgareddau amrwyiol. Ers i'r cynllun gael ei sefydlu rydym wedi gweithio efo'n gilydd ar drefniadau barbeciw cymunedol ac mae'r grŵp wedi bod wrthi yn galed yng ngardd gymunedol Peblig. Maen nhw yn dweud wrtha i fod y prosiect yn llwyddiannus iawn, ac mae sawl un wedi dangos diddordeb ar gyfer flwyddyn nesaf yn barod.

Wedyn, dwi'n ymuno efo dau o fy nghyd-weithwyr ar Ffordd Maes Barcer i wneud sesiwn twtio stad. Mae yna ambell gŵyn wedi dod i mewn am sbwriel ac rydym wedi gwahodd grŵp o ddisgyblion Ysgol Syr Hugh Owen i helpu i lanhau'r strydoedd. Mae hyn yn mynd yn dda iawn gyda phedwar sgip wedi eu llenwi hyd yn hyn gyda gwastraff o erddi. Mae'r plant wedi gweithio'n galed ac mae'r ardal yn lân a thaclus. Mae hi'n ddiwrnod sych ac mae'n bleser cael helpu'r gymuned.

Ar fy ffordd dwi'n gweld dau o'r hogiau sydd ar ein Cynllun Wardeiniaid Ifanc flwyddyn yma. Dwi'n stopio gyda nhw am sgwrs ac mae'r ddau yn deud eu bod nhw yn edrych ymlaen at gymryd rhan yn y cynllun a methu aros i gael cychwyn. Y lle olaf dwi'n mynd i weld cyn gorffen fy shifft yw Canolfan Gymunedol Tŷ Peblig ble dwi'n mynychu cyfarfod gydag aelodau eraill o dîm CCG i sôn am gynlluniau ar gyfer digwyddiadau cymunedol yr haf.

Cyn i mi orffen rwy'n galw yn ôl i swyddfa Siambr Buddug i adrodd yn ôl ar ddigwyddiadau'r diwrnod. O edrych yn ôl mae hi wedi bod yn ddiwrnod da iawn o ran y tywydd a gwaith a dwi'n mynd am adra yn fodlon bod tenantiaid yn hapus, bod y strydoedd yn lanach a bod amrywiaeth o weithgareddau wedi eu trefnu i ddiddori plant yn ystod wythnosau gwyliau'r ysgol. Diwrnod da!

Gwella tu mewn a thu allan

Mae CCG yn buddsoddi £136 miliwn ar wella safon bron i 6,300 o gartrefi fel rhan o'r rhaglen pum mlynedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Rydym yn gosod ffenestri a drysau newydd, yn insiwleiddio cartrefi, ac yn gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi er mwyn creu cartrefi modern, cynhesach, mwy ynni effeithiol, clyd a diogel i denantiaid.

Ond, rydym yn gwybod nad yw gwella tu mewn cartrefi yn ddigon bob tro a bod gwella ardaloedd o amgylch ein stadau yn allweddol i sicrhau newid tymor hir er gwell.

Y nod yw sicrhau bod cartrefi mewn ardaloedd diogel a chyfeillgar. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn buddsoddi £4 miliwn mewn cynllun amgylcheddol fel rhan o raglen SATC.

Fel gyda pob agwedd arall o waith ar y rhaglen mae barn a syniadau ein tenantiaid yn bwysig i ni. I'r perwyl hwn fe gafodd holiadur ei anfon i bob tenant gyda'n newyddlen chwarterol, roedd ar gael i breswylwyr ar ein gwefan, mewn digwyddiadau cyhoeddus ac yn ein swyddfeydd ardal. Rydym hefyd wedi holi am farn tenantiaid ar ein tudalennau Facebook a Twitter. Cynhaliwyd sawl ymweliad stad hefyd er mwyn sgwrsio gyda thenantiaid a phreswylwyr am y gwelliannau arfaethedig. Mae'r ymateb i'r ymgynghori wedi ein helpu i ddeall anghenion pob cymuned, y problemau sy'n wynebu ardaloedd gwahanol, yn ogystal â chlywed syniadau ar sut y gallwn wella amgylchedd ein cartrefi.

Yn yr holiaduron fe nododd tenantiaid a phreswylwyr Henfaes, Dolgellau fod ysbwriel yn broblem ar y stad a'u bod yn poeni am ddiogelwch plant sy'n chwarae yn yr ardal. Oherwydd yr adborth yma, mae CCG wedi creu man arbennig i gadw biniau ac wedi gwella llwybrau er mwyn gwella golwg y stad. Mae ffens a goleuadau diogelwch a giatiau newydd wedi eu gosod er mwyn atal plant rhag rhedeg i'r ffordd fawr. Mae camerâu CCTV wedi eu gosod hefyd er mwyn gwneud yr ardal yn fwy diogel ar gyfer y tenantiaid a'r preswylwyr.

Roedd parcio a diogelwch plant yn flaenoriaeth i denantiaid a phreswylwyr Llys yr Eifl, Caernarfon hefyd gan fod ceir yn cael eu gyrru ar hyd y llwybrau troed ac yn ei wneud yn beryglys i blant chwarae yn ogystal â dinistrio'r llwybr i gerddwyr. Roedd tenantiaid a phreswylwyr yn awyddus iawn i weld y broblem yn cael ei datrys. Felly rydym wedi gosod giât diogelwch i atal unrhyw gerbydau rhag mynd ar y llwybr troed. Mae hyn wedi sicrhau fod gan blant yr ardal le diogel i chwarae.

Mae'r stadau eraill sydd wedi derbyn gwelliannau eleni yn cynnwys Ffordd y Mela, Pwllheli; Ffordd y Castell, Maesgeirchen; a Gloddfa Glai, Nantlle.

Dros y ddwy flynedd nesaf bydd nifer o stadau eraill ar draws Gwynedd yn gweld budd o dderbyn gwelliannau amgylcheddol gyda'r nod o greu ardaloedd mwy diogel a dymunol i'n tenantiaid fyw.

Cymunedau a chymdeithasu i'n pobl hŷn

Mae canran helaeth o'n tenantiaid yn bobl hŷn ac mae gan CCG 17 o gynlluniau tai gwarchod ar hyd a lled Gwynedd.

Pwrpas ein tai gwarchod yw rhoi cyfle i bobl hŷn a bregus barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ond gyda'r sicrwydd ychwanegol bod Warden wrth law i'w cefnogi. Gall unigolion golli cyswllt gyda ffrindiau a chael eu hunain yn unig heb gylch o gyfoedion i gymdeithasu â nhw.

Mewn sawl cynllun mae lolfa ac ardal i bobl ddod at ei gilydd. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni yn CCG annog tenantiaid i gymdeithasu gyda'i gilydd ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau er mwyn datblygu ymdeimlad o gymuned ac annibyniaeth ymysg criw o bobl fyddai fel arall yn cael eu hynysu o gymdeithas oherwydd eu hoed neu anabledd.

HAFAN ELAN, LLANRUG

Mae Clwb Cinio Hafan Elan yn dangos yr effaith bositif mae cwrdd â ffrindiau yn rheolaidd yn gallu ei gael ar unigolion mwy bregus.

Sefydlwyd y Clwb Cinio yn 2011 gan Bessie Costello, Warden CCG ar y safle drwy gydweithio ag Age Cymru. Y bwriad oedd creu cyfle i drigolion gymdeithasu'n rheolaidd mewn awyrgylch diogel a chyfeillgar.

Bob dydd Mawrth mae Bessie yn trefnu bod cinio o Ysgol Brynrefail yn cael ei anfon i Hafan Elan, ble mae 30 o drigolion yn dod at ei gilydd am sgwrs dros bryd o fwyd maethlon ac i weld eu ffrindiau.

Yn fuan wedi ei sefydlu, daeth yn amlwg bod y galw am y Clwb Cinio yn uwch na'r hyn oedd Hafan Elan yn gallu ei ddarparu o ran adnoddau a lle. Gyda help rhai o swyddogion CCG gwnaeth y Clwb gais am arian o gronfa Strategaeth Pobl Hŷn Gwynedd i brynu offer a dodrefn newydd er mwyn i fwy o bobl allu manteisio ar y Clwb Cinio. Roedd y cais yn llwyddiannus a deunaw mis yn ddiweddarach mae'r Clwb yn ffynnu ac wedi tyfu gydag aelodau bellach yn dod o ardaloedd cyfagos Brynrefail, Cwm y Glo, Penisarwaun a Deiniolen.

Gwella cymunedau

Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae dros £2.4 miliwn wedi ei fuddsoddi mewn cymunedau ar draws Gwynedd diolch i gronfa buddsoddi cymunedol CCG.

Mae datblygu cymunedau cynaliadwy yn allweddol i ni. Dyna pam y cafodd y gronfa, gwerth £1.25 miliwn ei chreu. Mae nifer o grwpiau cymunedol a gwirfoddol ar hyd a lled Gwynedd wedi derbyn nawdd tuag at brosiectau, cynnal digwyddiadau, trefnu hyfforddiant, a gwella cyfleusterau lleol diolch i'r gronfa.

Penodwyd Mantell Gwynedd i weinyddu'r gronfa yn 2012. Yn ystod 2012/13 aeth dros £280,000 i grwpiau amrywiol. Mae ffigyrau yn dangos bod yr arian wedi sicrhau dyfodol 47 prosiect a buddsoddiad o dros £2 filiwn gan gyrff eraill fel Llywodraeth Cymru a Chronfa Loteri Fawr.

Dyma rai o'r prosiectau sydd wedi derbyn arian.

Vi-ability a Chlwb Pêl-droed Bangor
Derbyniodd y prosiect arian gan CCG i gyd-ariannu swydd Rheolwr Cymunedol ar gyfer menter gymdeithasol rhaglen addysgiadol Vi-ability. Mae'r rhaglen yn ceisio defnyddio pêl-droed i wneud gwahaniaeth i fywydau unigolion ac i gymunedau.

Partneriaeth Marchog- 'Cartio i fywyd gwell'
Mae hwn yn gynllun sy'n targedu pobl ifanc rhwng 16 a 25 nad ydynt mewn addysg, gwaith nac yn derbyn hyfforddiant a phobl ifanc rhwng 14-16 sy'n debygol o golli cyfleoedd hyfforddiant. Mae un o bartneriaid y prosiect, sef Redline Karting wedi datblygu cwrs sylfaenol mecanic er mwyn annog y bobl ifanc i barhau gyda'u addysg, hyfforddiant neu gyfleodd am swydd.

Deudraeth Cyf
Mae gwirfoddolwyr yn tyfu ffrwythau a llysiau yng Ngardd Gymunedol Deudraeth ar stad Castell Deudraeth. Mae'r cynnyrch yn cael ei werthu yn lleol, gyda'r holl elw yn mynd at brosiectau cymunedol eraill.

Mae 60 wedi gwirfoddoli a chymryd rhan yn y prosiect sydd wedi creu 6 swydd newydd.

Gwesty Seren
Mae Gwesty Seren, Llan Ffestiniog ymysg rhai o'r prosiectau mwyaf i dderbyn grant gan y gronfa. Mae hwn yn brosiect gwerth £800 mil i adnewyddu ac uwchraddio cyn gartref preswyl i hostel tair seren ar gyfer unigolion gydag anableddau a'u teuluoedd.

Llywodraethu effeithiol a rheolaeth gadarn

Bwrdd

Mae deuddeg aelod ar Fwrdd CCG, sef pedwar tenant, pedwar wedi eu henwebu gan Gyngor Gwynedd a phedwar aelod annibynnol, gyda phob un yn Gyfarwyddwyr Anweithredol. Mae gwaith strategol y Bwrdd yn cael ei gefnogi gan bedwar pwyllgor sef, Cyllid, Archwilio, Gweithredol ac Adnoddau Dynol. Mae bod yn aelod Bwrdd yn gyfrifoldeb ac mae'r aelodau yn rhoi eu hamser yn wirfoddol.

Roedd saith cyfarfod o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn a thri 'Diwrnod i Feddwl' sy'n rhoi'r cyfle i'r aelodau drafod materion tu allan i'r rhaglen fusnes arferol.

Dyma'r aelodau fu'n gwasanaethu ar y Bwrdd yn ystod 2012/13:

Aelodau Tenant:

- Margaret Bracegirdle (Is-gadeirydd)
- Richard Humphreys *
- Alan Moseley **
- Claire Russell Griffiths
- Nerys Williams

Aelodau Annibynnol:

- John Glyn Jones (Cadeirydd)
- Vicky Norton (wedi ei phenodi am gyfnod pellach yn y Cyfarfod Blynyddol 2012)
- Dean Swindell
- Elfed Williams *
- Arwel Jones **

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd:

- Brian Jones
- Anne Lloyd Jones
- John Wyn Williams
- Trefor Edwards *
- Michael Sol Owen **

** Wedi ymddeol/ ymddiswyddo yn ystod y flwyddyn*
*** Wedi ymuno yn ystod y flwyddyn 2012/13*

Cyfranddalwyr

Cynyddodd y nifer o gyfranddalwyr i 45 yn ystod y flwyddyn. Mae bod yn gyfranddaliwr yn rhoi'r hawl i'r unigolyn bleidleisio mewn Cyfarfodydd Cyffredinol ac yn rhoi llais a dylanwad i denantiaid ar y ffordd mae CCG yn gweithredu.

Cyflawni addewidion

Roedd y ddogfen gynnig 'Eich Cartref, Eich Dewis' yn cynnwys 170 o addewidion wnaed i denantiaid cyn trosglwyddo'r stoc yn Ebrill 2010. Erbyn diwedd Mawrth 2013 roedd 116 o'r addewidion wedi eu gwireddu gyda chynnydd ar y gweddill yn golygu ein bod ar darged i'w cyflawni erbyn 2015.

Rhan greiddiol o'r addewidion oedd dod â'r stoc dai i fyny i Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2015, yn ystod y flwyddyn cyflawnwyd y canlynol:



1,798 ystafell ymolchi newydd wedi eu gosod

3,103 drws allanol newydd wedi eu gosod

2,044 cartref wedi ail-weirio

1,956 cegin newydd



4,221 ffenest gwydr dwbl newydd

HARA

Fel rhan o'r fframwaith rheoleiddio cynhaliwyd Asesiad Rheoleiddiol Cymdeithas Dai (HARA) cyntaf CCG yn ystod y flwyddyn gan Dîm Rheoleiddio Tai Llywodraeth Cymru. Mae'r HARA yn rhoi trosolwg o berfformiad yn erbyn 10 Canlyniad Cyflawni sy'n fesur o'r gwasanaeth mae tenantiaid yn ei gael. Derbyniodd CCG ddyfarniad 'canolig' o gyswllt rheoleiddiol ar gyfer y dyfodol, roedd y Bwrdd yn teimlo bod hyn yn adlewyrchiad teg ac yn rhoi sylw ar gryfderau a meysydd sydd angen gwella.

IDAA

Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau Iechyd a Diogelwch CCG yn ystod y flwyddyn a chafodd system Iechyd, Diogelwch, Ansawdd a'r Amgylchedd (IDAA) cynhwysfawr ei roi ar waith i reoli materion iechyd, diogelwch ac amgylcheddol yn well ac i sicrhau cysondeb ac ansawdd yn ein prosesau i gyd. Mae'r system newydd yn rhoi CCG ar y llwybr cywir i geisio am achrediad ISO 9001, 14001 ac OHSAS 18001 yn y flwyddyn ariannol nesaf.

PERFFORMIAD ARIANNOL 2012/13

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

Hyfywdra Ariannol

Bydd Llywodraeth Cymru, fel rheoleiddiwr yn cyhoeddi dyfarniad ar hyfywdra ariannol pob cymdeithas dai yng Nghymru. Mae CCG yn falch o adrodd mai'r feirniadaeth a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31ain o Fawrth 2013 oedd "Llwyddo". Mae hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn credu bod gan CCG adnoddau digonol i gwrdd ag ymrwymiadau ariannol y busnes presennol ac yn y dyfodol.

	2012/2013 £'m	2011/2012 £'m
CYFRIF INCWM A GWARIANT		
Trosiant	27.035	26.164
Gwarged Gweithredu	9.730	11.945
Gwarged ar Weithgareddau Cyffredin	8.838	11.939
Llog Taladwy	1.280	0.623
LLIF ARIAN		
Mewnlif Arian Net o Weithgareddau	8.609	13.495
All-lif ar ôl Buddsoddiad Cyfalaf	(21.252)	(3.752)
MANTOLEN		
Net Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy	50.698	23.802
Rhwymedigaethau Tymor Hir Net	17.000	5.000
Asedau Net	24.312	17.142

TROSIANT

	2012/2013 £'m
Rhent Tai, Modurdai ac Eiddo Eraill	22.0
Costau Gwasanaeth	0.5
Grant gan Llywodraeth Cymru	4.1
Eraill	0.4
CYFANSWM	**27.0**

GWARIANT

	2012/2013 £'m
Gwasanaethau	2.1
Rheoli	9.1
Cynnal a Chadw	6.1
Gwelliannau i'r Stoc Dai	28.8
Llog	1.3
Pryniant o Asedau Eraill	0.2
CYFANSWM	**47.6**